Busnes Cymru | Business Wales

# CEFNOGI MERCHED ENTREPRENEURAIDD YNG NGHYMRU

## CANLLAW ARFER DA

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# CYNNWYS

## Mae dogfen Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru' yn rhoi ffocws strategol i sefydliadau cefnogi busnesau sy'n darparu cefnogaeth i ferched sy'n sefydlu, cynnal neu ddatblygu eu busnes yng Nghymru.

Mae'r Canllaw Arfer Da hwn yn ategu'r ffocws y tynnir sylw ato yn "Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru" gan ei fod yn cynnwys cyngor ymarferol i chi fel sefydliadau cefnogi busnesau ar sut orau i weithio gyda merched sy'n sefydlu neu eisoes yn rhedeg eu busnes eu hunain. Drwy wneud newidiadau bach, bydd sefydliadau cefnogi busnesau'n gallu darparu gwasanaeth sy'n addas i bawb yn y gymuned, boed yn dechrau o'r newydd ym myd busnes neu eisiau datblygu eu busnes.

Bydd y Canllaw Arfer Da hwn yn cefnogi partneriaid sy'n rhan o eco-system busnesau Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau bod anghenion merched entrepreneuraidd yng Nghymru'n cael eu diwallu'n llawn.

Ceir tystiolaeth bod datblygu a chefnogi mentergarwch merched yn allweddol bwysig ar gyfer ffyniant busnes ac economaidd cyffredinol. Yn y DU, mae ymchwil gan y Cyngor Busnes i Ferched a Deloitte wedi canfod pe bai lefel gweithgarwch entrepreneuraidd merched yn cynyddu i gyfateb gweithgarwch dynion, gallai economi'r DU gael hwb o fwy na £180 biliwn erbyn 2025. Ceir tystiolaeth dda hefyd bod entrepreneuriaeth yn sail gadarn i annibyniaeth economaidd merched, yn ogystal â bod yn bwysig i greu twf a chyflogaeth – yn lleol ac yn genedlaethol.

Canran y busnesau sy'n eiddo i ferched yng Nghymru yw 28%, ychydig yn is na lefel y DU o 31%. Mae merched yn dal i wynebu nifer o rwystrau ac anawsterau gyda sefydlu a chynnal busnesau. Mae ymchwil yn dangos bod angen dull o weithredu â'i ffocws ar y rhywiau wrth ddarparu cefnogaeth, er mwyn datgloi'r potensial economaidd ac unigol llawn.

Mae canlyniadau'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) yn dangos bod y gweithgarwch Entrepreneuraidd yng Nghymru yn 2018 wedi parhau i fod yn gryf gyda chyfradd TEA (Cyfanswm Gweithgaredd Entrepreneuraidd Cyfnod Cynnar) yn 6.9%. Fodd bynnag, ar 4.4% mae'r gyfradd TEA benywaidd yng Nghymru yn llai na hanner y gyfradd ddynion o 9.4%.

Fel sefydliadau cefnogi busnesau, rydych chi'n allweddol er mwyn datblygu a chefnogi entrepreneuriaid benywaidd a thrwy fod yn ymwybodol o'r rhywiau yn eich darpariaeth, gallwch wella yn uniongyrchol feddylfryd, sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd ar draws cymunedau. Gall mesurau cydraddoldeb y rhywiau, fel cael gwared ar stereoteipiau'r rhywiau mewn addysg; codi ymwybyddiaeth a materion i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol, fel hybu pynciau STEM i enethod a merched, annog mwy o ferched ifanc i ystyried sefydlu eu busnes eu hunain. Er bod addysg a hyfforddiant yn sbardunau allweddol yn y broses hon, y cyswllt sydd gennych chi â busnesau lleol a sefydliadau busnes fydd y ffynhonnell o esiamplau a phrofiadau real sy'n hanfodol er mwyn hybu entrepreneuriaeth yn gadarnhaol.




Fusion, Aberteifi

> Mae'r achos moesol dros well cydraddoldeb y rhywiau'n glir, ac felly hefyd yr achos economaidd. Wrth i wledydd ym mhob cwr o'r byd geisio datblygu eu heconomïau a lleihau anghydraddoldeb, gall gwneud defnydd o botensial enfawr merched newid y gêm.

**Christine Lagarde, Rheolwr Gyfarwyddwr,**
**y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF), Mawrth 2017.**

# THEMÂU'R FFRAMWAITH A CHYNGOR ARFER DA

Mae Llywodraeth Cymru, a'r sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i fusnesau, wedi ymrwymo i gynnal cyfres o gamau gweithredu ar draws nifer o themâu y cytunir arnynt. Mae'r themâu hyn yn darparu crynodeb strategol i chi ddatblygu arferion i roi cefnogaeth bellach i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru. Bydd yr arfer hwn hefyd o fudd i'r eco-system ehangach ac yn cefnogi dull cynhwysol o weithredu gydag economi Cymru.



Dinorwig Distillery, Dinorwig

Dyma'r themâu yn y canllaw hwn:

- Cyngor a Gwybodaeth Busnes
- Cael Gafael ar Gyllid
- Mentora
- Rhwydweithio
- Gwobrau a Digwyddiadau Busnes
- Unedau deori, Lleoliadau gweithio ar y cyd a Chanolfannau busnes
- Monitro'r ddarpariaeth ymarferol

Mae'r canllaw hwn yn esbonio pwysigrwydd datblygu arfer da o dan bob thema ac yn awgrymu rhai cynghorion ymarferol isod.

# CYNGOR A GWYBODAETH BUSNES

Mae cyngor a gwybodaeth busnes yn adnodd allweddol i fusnesau sydd eisiau sefydlu a datblygu. Mae pob busnes yn wahanol ac mae gallu teilwra eich cefnogaeth fusnes i ddiwallu anghenion eich cleient yn helpu i sicrhau'r budd gorau posibl.

Mae dod o hyd i wybodaeth berthnasol a safonol yn angenrheidiol ym mhob cam wrth ddatblygu busnes. Mae steil, dulliau cyfathrebu ac iaith yn hollbwysig. Gall defnyddio cyngor a gwybodaeth busnes fod yn anodd wrth ddechrau arni – yn enwedig ar draws yr amgylchedd rheoleiddiol – felly, rhaid i chi sicrhau bod eich holl gyfathrebu'n gynhwysol ac yn osgoi rhagfarn.

Er enghraifft, mae llawer o wasanaethau cyngor a chefnogaeth busnes yn datgan bod eu gwasanaethau'n 'niwtral o ran rhyw' ac nad ydynt yn ffafrio dynion na merched. Ond eto gall ffocws 'niwtral o ran rhyw' fod ag un gwendid penodol o ran beth sydd ei angen gan wasanaeth – ei fod yn ymateb yn briodol i anghenion penodol grŵp o gleientiaid. Disgrifir y dull hwn o weithredu yn gyffredinol fel un 'dall i rywiau' heb ddeall na chydnabod beth yw gofynion, yn yr achos hwn, merched, wrth geisio gwneud i wasanaethau ymddangos yn niwtral.

Mae'r broblem o fod yn ddall i'r rhywiau wedi cael sylw gan y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb y Rhywiau (EIGE), gan ddweud,

*"there is a need to* ***mainstream a gender sensitive approach*** *in all entrepreneurship and growth policies, in order to consider, include and reflect the specific characteristics, needs and challenges of female entrepreneurs (both existing and would-be) and women's businesses".*

Mae mabwysiadu dull 'ymwybodol o'r rhywiau' prif ffrwd wrth ymarfer yn hanfodol er mwyn diwallu angenion yr **holl** entrepreneuriaid. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan RBS yn dangos bod merched yn tueddu i sefydlu busnes gyda sgiliau a phrofiadau gwahanol i ddynion, gan gynnwys llai o brofiad rheoli a llai o gysylltiadau busnes – gan dynnu sylw at yr angen am fath gwahanol, mwy ymwybodol o'r rhywiau, o gefnogi busnesau.

Un ffordd o wirio pa mor ymwybodol o'r rhywiau yw eich gwasanaethau yw drwy edrych ar yr iaith a ddefnyddir gan eich gwasanaeth ar draws y gwahanol ddulliau cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys y cyfathrebu wyneb yn wyneb gyda'r cleient (cyfarfodydd, gweithdai ac ati); cyfathrebu ysgrifenedig (taflenni hyrwyddo, briffiau gwybodaeth) a chyfathrebu ar-lein (gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac ati) i adnabod a dileu unrhyw ragfarn yn erbyn y rhywiau. Er enghraifft, gallai hyn fod yn rhywbeth syml iawn fel gwirio'r defnydd o enwau nad ydynt yn benodol i rywiau i gyfeirio at rôl neu broffesiwn (e.e. dyn busnes), a gwirio'r defnydd o ragenwau (e.e. peidio â defnyddio 'ef' pan mae rhyw y person yn anhysbys).

Yn ogystal â'r angen am ddefnyddio iaith niwtral o ran rhyw, ceir amrywiaeth o derminoleg gyffredin mewn asiantaethau cefnogi busnes sy'n anghyfarwydd efallai i ferched – yn bersonol neu mewn termau busnes. Er enghraifft, gall nifer o fusnesau merched fod yn gweithredu mewn sectorau nad ydynt yn cael eu hystyried fel rhai 'potensial am dwf mawr' a gall hyn atal merched rhag chwilio am unrhyw gefnogaeth a chyngor ar 'raglenni rwf', am nad ydynt yn meddwl eu bod yn berthnasol iddynt hwy. Felly, efallai y byddant yn ymddieithrio oddi wrth y broses cefnogi twf – ac oddi wrth wasanaethau cefnogi busnes yn gyffredinol.


Dylai unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei llunio fod yn gynhwysol a gwnewch yn siŵr bod eich cyfathrebu'n gytbwys o ran y rhywiau – gan gynnwys lluniau a ffotograffau – gyda gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion yr holl grwpiau o gleientiaid yn eich cymuned.

Gall sefydlu a chynnal busnes fod yn heriol i bawb, fodd bynnag, mae astudiaethau fel "Untapped Potential of Women in Enterprise" gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB), y Monitor Economaidd Byd-eang ac ymchwil Women's Enterprise Scotland, "Women in Enterprise", yn dangos bod rhai heriau'n gallu bod yn fwy arwyddocaol i ferched, yn enwedig yn y meysydd a restrir isod:

- Mynediad at gyllid
- Mynediad at gefnogaeth a rhwydweithio cymdeithasol
- Gwahanu addysgiadol a galwedigaethol
- Gofynion yn cystadlu am amser (cyfrifoldeb yn y cartref a'r gwaith)
- Bylchau mewn hyfforddiant a gwybodaeth
- Diffyg cyfleoedd mentora a modelau rôl

Yn yr ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan yr FSB yn y DU, crybwyllodd y merched sy'n berchnogion busnes heriau eraill, er enghraifft, dywedodd traean (34%) o berchnogion busnes benywaidd yr FSB eu bod yn teimlo eu bod wedi profi gwahaniaethu fel merched busnes yn y gorffennol. Roedd y merched sy'n aelodau o'r FSB yn cofio achosion o gleientiaid, cyflenwyr a chontractwyr allanol naill ai'n camgymryd eu rôl yn y busnes neu'n cymryd yn ganiataol mai partner neu gyflogai gwrywaidd oedd perchennog y busnes. Gall digwyddiadau o'r fath effeithio ar hyder perchnogion busnes benywaidd a thros amser, gall hyn erydu'r cymhelliant i ddatblygu busnes.

Bydd rhai o'r heriau hyn mae entrepreneuriaid benywaidd yn eu hwynebu'n anweledig yn aml, heb eu cydnabod gan asiantaethau cefnogi busnesau. Bydd hyfforddiant i gynghorwyr eich gwasanaeth, a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau mae merched entrepreneuraidd yn gallu eu hwynebu, yn rhoi hwb i allu eich tîm o staff i gyflwyno cefnogaeth fusnes benodol i gleientiaid. Bydd hyn yn sicrhau bod eich gwasanaethau cefnogaeth a chyngor busnes yn diwallu anghenion eich cleientiaid benywaidd yn gyson a'u bod mewn lle da i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau ym myd mentergarwch.



> "Roedd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r rhywiau'n ddefnyddiol iawn oherwydd rydw i'n deall yn well yn awr y rhwystrau posibl sy'n atal twf busnes i ferched yng Nghymru."

**Vicky Griffiths, Rheolwr Perthnasoedd Busnes**

**Unigolyn a gymerodd ran yn yr hyfforddiant ar gydbwysedd rhwng y rhywiau.**

The Little Stitchery Sewing Rooms, Ystradgynlais

# CYNGOR YMARFEROL

- Darparwch hyfforddiant i'ch staff ar anghenion merched entrepreneuraidd ac arfer gorau o ran darparu cefnogaeth busnes seiliedig ar anghenion a phenodol i ryw.

- Meddyliwch am eich cefnogaeth i fusnesau ac eraill ledled Cymru. Oes sectorau penodol yn cael eu targedu ar gyfer twf? Oes potensial yma i eithrio grwpiau penodol?

- Byddwch yn effro i anghenion cefnogi llai amlwg a chudd, fel colli hyder oherwydd profiad o ragfarn neu wahaniaethu, yn hytrach nag asesiadau o allu busnes.

- Os yw gwasanaethau cefnogi, fel hyfforddiant a digwyddiadau, yn cyd-fynd â meysydd heriol i ferched entrepreneuraidd, hybwch y gwasanaethau hynny ymhlith eich cleientiaid benywaidd fel grŵp targed.

- Helpwch ferched i wireddu'r potensial am dwf yn eu busnes. Er enghraifft, datblygwch gefnogaeth deilwredig, fel rhaglenni cyflymu twf i ferched yn unig.

- Meddyliwch am rai o'r heriau sydd wedi'u rhestru uchod ac edrychwch ar eich gwybodaeth hyrwyddo, gan gynnwys eich tudalennau ar-lein, a gwirio eich iaith a'ch lluniau drwy lens y rhywiau a gofyn, – 'Ydi'r iaith sy'n cael ei defnyddio neu'r lluniau sy'n cael eu cyflwyno'n dangos gwasanaeth sy'n berthnasol i ferched?' 'Ydi'r mathau o fusnesau sy'n cael eu rhedeg gan ferched yng Nghymru'n cael eu cynrychioli yma?' 'Oes gennym ni raniad teg, yn cynrychioli merched mewn busnes a dynion mewn busnes?'. Meddyliwch am adolygu eich strategaeth gyfathrebu'n rheolaidd er mwyn casglu gwybodaeth am y dulliau sy'n gweithio orau i ddenu cleientiaid – yn ddynion a merched – at y gwasanaeth.

- Ceisiwch ddefnyddio modelau rôl perthnasol, ac esiamplau o'r mathau o fusnesau sy'n masnachu yn eich ardal chi a ledled y wlad. Meddyliwch am y rhaniad rhwng busnesau sy'n cael eu rhedeg gan ferched a dynion. Hefyd dangoswch amrywiaeth o fusnesau o ran math a maint ar draws gwahanol sectorau, ac amrywiaeth o berchnogion busnes drwy wneud y canlynol – cynrychioli busnesau sy'n cael eu rhedeg gan gleientiaid DLIE; busnesau sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig/trefol; ac unrhyw fusnesau sy'n cael eu rhedeg gan gleientiaid ag anableddau.

- Sefydlwch gysylltiadau â sefydliadau addysgol lleol a chenedlaethol, gan gynnwys ysgolion a cholegau, i hybu diwylliant o entrepreneuriaeth yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb y rhywiau a datbygu meddylfryd entrepreneuraidd ymhlith eich pobl.

- Ystyriwch ddefnyddio dulliau a chanolfannau newydd ar gyfer cyfathrebu i gyflwyno eich neges i adrannau ehangach a mwy amrywiol o'r gymuned.

- Ystyriwch ymgyrchoedd rheolaidd wedi'u targedu i roi hwb i ddefnydd o wasanaethau gan ferched entrepreneuraidd. Defnyddiwch wahanol rwydweithiau i gynnwys merched DLIE; merched mewn cymunedau ynysig a merched ag anableddau. Sefydlwch system i fonitro'r ymgyrchoedd hyn fel eich bod yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda ar gyfer y dyfodol.

- Rhannwch eich profiadau yn lleol ac yn genedlaethol fel bod modd hybu esiamplau o arfer da a straeon llwyddiant i ddenu merched entrepreneuraidd at wasanaethau ledled y wlad.

# CAEL GAFAEL AR GYLLID

Mae cael gafael ar gyllid yn adnodd galluogol allweddol i fusnesau sy'n cael eu harwain gan ferched, nid dim ond wrth sefydlu ond hefyd i helpu i fuddsoddi ar gyfer twf. Er bod mwy o ferched yn sefydlu busnes fel opsiwn gyrfaol, mae llai'n datblygu i sicrhau twf. Byddai rhoi sylw i'r anghydraddoldeb hwn o ran y rhywiau yn y cam twf yn ychwanegu mwy na £180 biliwn at economi'r DU erbyn 2025 yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Deloitte a'r Cyngor Busnes i Ferched.

Mae astudiaethau wedi dangos bod merched, ar gyfartaledd, yn dechrau eu busnes gyda thraean yn llai o gyfalaf na'u cyfoedion gwrywaidd. Mae prinder cyfalaf yn cyfyngu ar dwf entrepreneuraidd drwy gyfyngu ar fuddsoddiadau busnes mewn asedau allweddol fel offer, cyflogeion neu stoc.

Wrth ystyried cyllid, mae merched yn fwy tebygol o ymwneud â phroses feddwl ac asesu hwy cyn gweithredu i fuddsoddi. Yn benodol, ceir amharodrwydd i gymryd benthyciad diogel os mai'r prif ased diogel yw'r cartref teuluol. Mae mwy o fanciau'n cydnabod merched fel grŵp nodedig ac yn cynnig gwasanaethau teilwredig, gan gynnwys cefnogaeth gyda benthyciad.

O ran modelau cyllido mwy newydd, mae cyllido torfol wedi gweithio'n dda i ferched, gyda'r iaith a'r dull o weithredu'n llai dieithr. Mae ymchwil gan PwC wedi dangos bod merched yn fwy llwyddiannus mewn cyllido torfol na dynion. Roedd ymgyrchoedd o dan arweiniad merched 32% yn fwy llwyddiannus am gyrraedd eu targed cyllido nag ymgyrchoedd o dan arweiniad dynion. Mae hyn yn groes i ymchwil Banc Barclays, lle mae dynion yn llawer mwy tebygol o gael cyllid menter cyfalaf ar gyfer eu busnesau na merched.

Ymhlith y ffurfiau eraill ar gyllid sy'n werthfawr ym marn merched mae defnyddio gwerth gwerthiant drwy ddefnyddio talu ymlaen llaw a rhoi hwb i gyllid sydd ar gael ar gyfer ailfuddsoddi.

# CYNGOR YMARFEROL

- Ystyriwch y bydd rhai merched yn cymryd mwy o amser i feddwl am ymgymryd â buddsoddiad. Nid yw cymryd amser i ystyried buddsoddiad yn ddiffyg diddordeb mewn buddsoddi ar gyfer twf, er enghraifft.
- Adolygwch eich trefniadau benthyciad yn eich sefydliad ac ystyried a ydynt yn ymwybodol o'r rhywiau.
- Os bydd buddsoddiad cynyddol yn galluogi cyflawni cynlluniau twf busnesau, ystyriwch dynnu sylw at gyfryngau, fel benthyca heb ddiogelwch a chyllido torfol, a fydd yn apelio mwy efallai at ferched entrepreneuraidd.
- Gwnewch yn siŵr bod y merched sy'n gleientiaid i chi'n ymwybodol o'r gwasanaethau cefnogi a gynigir gan fanciau, ac yn benodol, y rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer busnesau o eiddo merched.
- Hefyd meddyliwch am ffactorau allanol eraill a all ddylanwadu ar benderfyniadau ariannol. Er enghraifft, gall delweddau ystrydebol, a chynrychiolaeth ystrydebol ar y cyfryngau o ferched entrepreneuraidd, fod yn niweidiol mewn sawl ffordd – gan fod delweddau nid yn unig yn cael effaith negyddol ar ferched sydd efallai'n ystyried sefydlu eu busnes eu hunain, ond hefyd ar gyllidwyr posibl a chydweithredwyr busnes, y gall cynrychiolaeth o'r fath ddylanwadu arnynt.




Emily Webb, Oarsome Grips

# M E N T O R A

Gall cael mentor busnes helpu entrepreneuriaid mewn sawl ffordd, gan gynnwys datblygu strategaethau busnes drwy rannu eu sgiliau, eu harbenigedd, eu profiad a'u cysylltiadau. Mae ymchwil wedi dangos bod merched yn fwy tebygol na dynion o ddatgan eu bod yn teimlo'r amgylchedd cysylltiedig â chyngor busnes yn anghroesawus ac anghydymdeimladol i rai heriau penodol maent yn eu hwynebu. Felly, yn aml iawn, mae mentora'n cael ei ddewis gan ferched fel opsiwn gwell ar gyfer eu dyheadau twf a datblygu busnes.

Canfu ymchwil gan McGowan ac eraill bod merched a dynion yn ffafrio gwahanol fathau o gyngor, gyda dynion yn aml yn ffafrio cyngor ar sail ymgynghorol a merched yn ffafrio gwasanaethau sydd wedi'u seilio fwy ar fodel mentora a hyfforddi.

Canfu'r Ffederasiwn Busnesau Bach bod mentora'n gallu bod yn hynod effeithiol i ferched entrepreneuraidd er mwyn meithrin hunanhyder a galluogi merched i herio'r canfyddiadau am eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain. Mae merched yn llai tebygol o adnabod llawer o bobl mewn busnes ac felly maent yn cael llai o gyfleoedd i elwa o gyswllt ag eraill sy'n fodlon rhannu gwybodaeth a phrofiad efallai am sefydlu neu redeg busnesau.

Canfu astudiaeth gan Women's Enterprise Scotland bod mentora'n cael ei werthfawrogi gan 84% o fusnesau dan arweiniad merched yr oedd mentora ar gael iddynt. Hefyd, dywedodd 43% eu bod yn gweld mentora fel y gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen i ddatblygu eu busnes yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oedd busnesau wedi gallu defnyddio mentor, gwelwyd budd o weithio gyda rhywun oedd wedi wynebu heriau a phrofiadau tebyg.

# CYNGOR YMARFEROL

- Holwch pa gynlluniau a chyfleoedd mentora sydd ar gael yn eich ardal chi a rhoi gwybod i'r merched sy'n gleientiaid i chi am y gwasanaethau hyn a sut i'w defnyddio.
- Cofiwch gynnwys cefnogaeth mentora fel opsiwn yn ychwanegol at wasanaethau ymgynghori.
- Meddyliwch am gynnwys gwasanaethau cefnogaeth mentora fel opsiwn i wella hunanhyder a chymhelliant cleientiaid benywaidd.
- Ceisiwch recriwtio cydbwysedd o ddynion a merched yn fentoriaid a thynnu sylw atynt wrth gynnig gwasanaeth.



Rebalance Retreats, Cilgeti

# RHWYDWEITHIO

Mae rhwydweithio wedi profi'n adnodd effeithiol i bob perchennog busnes ym mhob cam o'r busnes – o sefydlu i datblygiad a thwf. Mae meithrin cyfalaf cymdeithasol – h.y. rhwydwaith o gysylltiadau cymdeithasol – yn rhan bwysig o ddatblygu busnes a cheisio cefnogaeth. Mae merched entrepreneuraidd yn dweud yn rheolaidd mai rhwydweithiau a gallu adeiladu ar gysylltiadau cymdeithasol a busnes yw un o'r dulliau pwysicaf o gefnogaeth iddynt yn eu busnes.

Hefyd mae ymchwil wedi dangos bod merched entrepreneuraidd yn ystyried rhwydweithio fel ffordd arwyddocaol o ddatblygiad a thwf eu busnes, a hefyd eu sgiliau busnes eu hunain. Roedd rhwydweithio hefyd yn cael ei weld fel cyfrwng pwysig i drechu ynysu, sy'n gallu bod yn nodwedd o berchnogaeth busnes – yn enwedig ar gyfer y merched sy'n unig fasnachwyr, neu sy'n gweithio o gartref, neu sydd â phlant neu gyfrifoldebau gofalu eraill ac felly oriau gwaith cyfyngedig.

Mae'n bwysig, felly, bod eich gwasanaeth yn deall bod merched, a grwpiau eraill a dangynrychiolir, yn tueddu i fod â mwy o angen am gyfleoedd rhwydweithio. Gall cyfleoedd o'r fath gynorthwyo gyda nifer o feysydd datblygu busnes, gan gynnwys dod o hyd i bartneriaid busnes; cael gafael ar gyllid; dod o hyd i gyflenwyr; dod o hyd i gwsmeriaid, dod o hyd i staff, ac ati.

Mae ymchwil wedi dangos manteision rhwydweithio – ac, yn benodol, rhwydweithiau i ferched yn unig. Mae manteision rhwydweithiau i ferched yn unig, a digwyddiadau rhwydweithio, wedi cynnwys teimlo'n fwy cyfforddus yn yr amgylchedd; teimlo'n llai dihyder mewn gofod i ferched yn unig; datblygu mwy o hyder i rwydweithio a siarad ag eraill; a phrofi lle mwy cyfforddus i wneud busnes.

Gall rhwydweithiau entrepreneuraidd wneud gwahaniaeth i'r rhai sy'n ystyried sefydlu busnes neu yng nghamau cynnar eu busnes. Er bod rhwydweithio yn gyffredinol yn gallu bod yn heriol, mae astudiaethau gan Women's Enterprise Scotland a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dangos bod rhwydweithiau i ferched yn unig yn amgylcheddau mwy cyfforddus i lawer, gan helpu i ddatblygu hyder ac, yn y pen draw, rhoi cyfle i ferched fynychu digwyddiadau rhwydweithio eraill rhyw cymysg a/neu benodol i sector. Roedd amseriad a natur y digwyddiadau rhwydweithio'n allweddol i fusnesau dan arweiniad merched. Roedd y trefniadau ar ôl llawer o ddigwyddiadau (e.e. digwyddiadau "Cwrw a Phitsa") yn llai apelgar i rai merched.

# CYNGOR YMARFEROL

- Holwch pa gyfleoedd rhwydweithio lleol sydd ar gael yn eich ardal. Efallai eich bod eisiau ystyried sefydlu rhai digwyddiadau. Ystyriwch sefydlu 'system cyfaill' ar gyfer y rhai hynny sy'n newydd i rwydweithio, fel nad oes raid i ferched gerdded i mewn i ddigwyddiadau ar eu pen eu hunain.

- Os byddwch yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio, meddyliwch sut orau i'w strwythuro fel eu bod yn fwy llwyddiannus. Er enghraifft, meddyliwch am sut i ddenu entrepreneuriaid newydd a hefyd rhai mwy profiadol, a phartneriaid lleol eraill yn y gymuned fusnes. Ystyriwch ddigwyddiadau i ferched yn unig ac, os byddant yn llwyddiannus, gallech drosglwyddo'r cyfrifoldeb am rai digwyddiadau rhwydweithio yn y dyfodol i rai o'r aelodau.

- Defnyddiwch y rhwydweithiau fel cyfrwng i wrando ar entrepreneuriaid benywaidd, fel eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu profiadau a'u hanghenion cefnogi.

- Meddyliwch am hybu manteision dysgu a chefnogaeth i gydweithwyr ar draws y rhwydweithiau a defnyddiwch y digwyddiadau rhwydweithio i godi pontydd rhwng entrepreneuriaid, darparwyr gwasanaethau busnes a phartneriaid lleol eraill yn eich cymuned fusnes. Byddwch yn ymwybodol o amseriad; lleoliad; materion hygyrchedd ac ati, fel bod y rhwydwaith mor gynhwysol â phosibl.



Air Covers, Wrecsam

# GWOBRAU A DIGWYDDIADAU BUSNES

Mae gwobrau a digwyddiadau busnes yn nodwedd gynyddol yn y tirlun entrepreneuraidd. Er bod llawer o ddigwyddiadau'n agored i bawb, mae diffyg merched yn cael eu henwebu, yn mynychu neu'n cael eu cynrychioli mewn slotiau siarad neu ar banelau yn y digwyddiadau hyn wedi bod yn gatalydd i'r cynnydd mewn llawer o wobrau a digwyddiadau penodol i ferched ledled y wlad.

Ceir amrywiaeth gynyddol o wobrau i ferched, gan geisio tynnu sylw at gyflawniadau busnesau sy'n eiddo i ferched a hyrwyddo entrepreneuriaeth fel opsiwn gyrfaol amgen. Mae modelau rôl benywaidd yn hanfodol er mwyn ysbrydoli mwy o ferched i ddatgloi eu talentau entrepreneuraidd a chreu eco-system busnes amrywiol ac arloesol gyda chydbwysedd rhwng y rhywiau.

Drwy roi sylw manwl i'r rhywiau wrth gynllunio digwyddiadau, byddwch yn helpu i sicrhau bod strwythur arfaethedig eich digwyddiad a'ch deunydd cyfathrebu i hyrwyddo'n denu cymysgedd fwy amrywiol. Mae hefyd yn ymarfer rheoli risg da sy'n gallu osgoi achosion lle mae drwg yn cael ei wneud i enw da brand, er enghraifft, drwy ddefnyddio panelau o ddynion i gyd, neu siaradwyr gwrywaidd. Fel y nodwyd yn gynharach yn y canllaw hwn, gall defnydd mwy gofalus o iaith wrth farchnata roi hwb i gyrraedd pob rhan o'r gymuned – gan gynnwys y gymuned fusnes leol – ac mae'n osgoi unrhyw eithrio anfwriadol. Casglwch wybodaeth am gyfraddau cymryd rhan mewn digwyddiadau yn ôl rhyw, oherwydd bydd hyn nid yn unig yn mesur effeithiolrwydd ac yn adnabod arfer gorau, ond hefyd yn eich helpu chi i sicrhau bod nodau amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cyflawni.

# CYNGOR YMARFEROL

- Holwch am wobrau penodol i ferched entrepreneuraidd ac annog eich cleientiaid i wneud cais neu enwebu eu cydweithwyr i dynnu sylw at gyflawniadau busnes. Bydd hyn yn helpu i greu cymhelliant gyda pherchnogion busnes presennol a hefyd y genhedlaeth nesaf o fusnesau newydd.
- Sicrhewch bod gennych gydbwysedd da o'r rhywiau wrth ddewis panel beirniaid.
- Meddyliwch am y rhywiau wrth gynllunio eich digwyddiadau i sicrhau cymysgedd gytbwys o gyfranogwyr. Darparwch amrywiaeth o siaradwyr a chyfranwyr. Adolygwch gyfraddau cymryd rhan eich digwyddiadau yn ôl rhyw ac asesu a oes angen gweithredu mewn rhyw ffordd i wella'r cyfranogiad, i adlewyrchu gwerthoedd cynhwysiant ac amrywiaeth eich sefydliad.
- Gan mai merched yw mwyafrif y darparwyr gofal mewn teuluoedd o hyd, ystyriwch amseriad y digwyddiadau a'r rhaglenni hyfforddi (gallech ystyried darparu meithrinfa hyd yn oed, os oes adnoddau ar gael). Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau'r cynhwysiant a'r amrywiaeth gorau posibl ar gyfer eich digwyddiadau, ond hefyd yn sicrhau gwell elw ar fuddsoddiad o ran rhaglenni eich digwyddiadau.
- Os byddwch yn gweld bod llai o ferched entrepreneuraidd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau, adolygwch yr iaith yn y deunyddiau hyrwyddo a meddyliwch am gynnwys modelau rôl benywaidd ysbrydoledig fel siaradwyr ac aelodau panel. Ystyriwch gynnal digwyddiadau penodol i ferched, oherwydd gall hyn helpu i sicrhau gwell ymgysylltu â merched entrepreneuraidd.


In The Welsh Wind Distilery, Aberteifi

# UNEDAU DEORI/LLEOLIADAU GWEITHIO AR Y CYD A CHANOLFANNAU BUSNES

Gan fod entrepreneuriaeth yn cael ei ystyried fwy a mwy fel opsiwn gyrfaol, mae mwy o ofod sefydlu, fel unedau deori, canolfannau menter a gofod gweithio ar y cyd, yn cael eu sefydlu. Gyda mwy o ferched yn sefydlu busnesau, gall ystyried eich darpariaeth o wasanaethau drwy lens y rhywiau o'r dechrau un helpu i sirhau bod y gwasanaethau cefnogi mor effeithiol â phosibl i bawb.

Mae gwaith ymchwil yn dangos i ni bod merched yn tueddu i sefydlu busnes gyda sgiliau a phrofiad gwahanol i ddynion. Weithiau gall hyn gynnwys profiad rheoli cyfyngedig ac yn aml mae gan ferched lai o gysylltiadau busnes pan maent yn dechrau arni (RBS Group (2013)). Nid yw'n syndod, felly, bod merched yn elwa efallai o ddull gwahanol o ddarparu cefnogaeth fusnes. Er enghraifft, mae adrannau yn y canllaw uchod wedi edrych ar sut mae merched efallai'n ffafrio gwasanaeth mentora a hyfforddi yn hytrach na dull ymgynghorol o gefnogi eu busnes.

Gall unedau deori fod o gymorth mawr i ferched drwy alluogi sefydlu busnes a meithrin gallu. Hefyd gallant gefnogi ymchwil a gweithredu gwasanaethau i ferched yn unig drwy ddarparu'r amgylchedd sydd ei angen i ferched sefydlu eu busnes a phennu targedau ar gyfer twf. Hefyd gall unedau o'r fath helpu i greu a hybu rhwydweithiau a chefnogi arloesi ar draws busnesau, gan ddarparu ymdeimlad o bwrpas a rennir. Os bydd modelau'n llwyddiannus, gallant helpu i ddylanwadu ar bolisi datblygu economaidd lleol a chenedlaethol.

Bydd gan rai gwasanaethau cefnogi deori ddull cyflym o ddatblygu twf busnes, gan greu amgylchedd lle mae entrepreneuriaid yn cael eu hannog i ddatblygu eu busnes mor gyflym â phosibl, gan gynnwys ymgymryd â buddsoddiad ar ffurf dyled neu ecwiti. Gall hyn fod yn fuddiol i lawer o fusnesau a'u cyrraedd yn yr union gam lle mae angen y lefel hon o gefnogaeth.

Dywedir fod merched yn edrych ar lwyddiant busnes drwy ystod ehangach o fesurau yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar drosiant busnes. Er enghraifft, mae ymchwil wedi dangos bod merched yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar fesurau fel ansawdd cynnyrch; pontio bwlch mewn gwasanaeth; neu greu cyflogaeth. Er nad yw hyn yn ymwneud â diffyg uchelgais i ddatblygu – mae merched yn aml yn gweithredu'n wahanol gyda chyflawni twf a mesur llwyddiant busnes. Drwy sicrhau bod eich staff yn deall agwedd wahanol merched entrepreneuraidd o bosibl, bydd y profiad yn well i'r merched eu hunain ac yn rhoi hwb i lwyddiant yr unedau deori a'r canolfannau busnes.

# CYNGOR YMARFEROL

- Meddyliwch am beth mae'r ymchwil yn ei ddangos i ni am wahanol anghenion cefnogi merched entrepreneuraidd wrth sefydlu gwasanaethau a chanolfannau deori, fel bod eich gwasanaethau ar eu gorau i gefnogi merched a dynion. Gallwch ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff ar anghenion merched entrepreneuraidd ac arfer gorau wrth ddarparu cefnogaeth fusnes sy'n benodol i ryw, yn seiliedig ar anghenion.

- Helpwch i greu amgylchedd entrepreneuraidd sy'n fuddiol i bob entrepreneur ac sy'n creu tirlun cefnogi cynhwysol a galluogol ar gyfer merched a dynion entrepreneuraidd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, sefydlu cyfleoedd rhwydweithio ar draws busnesau a chefnogi rhannu profiadau yn y ganolfan.

- Wrth asesu llwyddiant busnes, mabwysiadwch amrywiaeth o fesurau llwyddiant ochr yn ochr â throsiant, gan gynnwys creu cyflogaeth a manteision cymunedol, fel pontio bylchau hanfodol mewn gwasanaethau lleol.

- Helpwch i hybu merched entrepreneuraidd mewn sectorau lle maent wedi'u tangynrychioli drwy ddatblygu cefnogaeth fel mentora a rhwydweithio a chynyddu'r defnydd o ferched entrepreneuraidd fel modelau rôl ym mhob sector.




MamGu Welshcakes, Solva

# MONITRO'R DDARPARIAETH YMARFEROL

## Mae data wedi'u gwahanu yn ôl rhyw, fel rhan o system fonitro a gwerthuso effeithiol, yn bwysig er mwyn edrych ar effaith unrhyw raglen neu ymyriad polisi i gynyddu cyfranogiad merched.

Mae casglu a dadansoddi data wedi'u gwahanu yn ôl rhyw yn hanfodol i'ch helpu chi i adnabod arfer gorau a bydd yn tynnu sylw at fudd economaidd unrhyw raglenni wedi'u targedu ar gyfer y rhywiau rydych yn eu datblygu ar gyfer eich gwasanaeth. Gan weithio gyda'ch rhanddeiliaid a'ch partneriaid yn yr eco-system busnes, ceisiwch rannu gwybodaeth, fel sy'n bosibl, er mwyn creu darlun cywirach o'r angen yn lleol ac fesul ardal.

Mewn astudiaeth ddiweddar yn y DU, nododd yr FSB ddiffyg data perchnogaeth busnes cyson a rheolaidd wedi'u gwahanu yn ôl rhyw. Argymhellodd yr adroddiad hwn y dylid cael system well o gasglu data, fel bod llunwyr polisïau'n cael sylfaen dystiolaeth gadarnach am entrepreneuriaeth merched.

Drwy ddatblygu dulliau syml, gallwch fod yn fwy effeithiol am wella a newid polisïau – fel drwy gasglu a dadansoddi data wedi'u gwahanu yn ôl rhyw – fel rhan o'ch proses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

# CYNGOR YMARFEROL

- Fel tîm o staff, sefydlwch eich systemau gwybodaeth i sicrhau bod y data am ddefnydd o raglenni cefnogi a'u cwblhau, a bodlonrwydd cleientiaid, yn cael eu gwahanu yn ôl rhyw.
- Edrychwch ar eich data'n rheolaidd a thrafod y canlyniadau gyda'r tîm o staff fel bod modd eu defnyddio fel sail i raglenni yn y dyfodol – er enghraifft, drwy fesur mewnbwn, gweithgareddau ac effeithiau allbynnau. Gellir monitro effeithiau tymor hwy er mwyn gwella eich datblygiadau polisi seiliedig ar dystiolaeth i wella cydraddoldeb y rhywiau.
- Os oes gennych chi aelodau o staff sy'n gyfrifol am fonitro, cofiwch eu cefnogi, drwy hyfforddiant o bosibl, fel eich bod yn gallu adrodd yn ôl ar eich gorau am gynnydd gyda chefnogi merched entrepreneuraidd.




Workplace Worksafe, Ruthin

# I GLOI…

## Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ddatblygu fel rhan o broses i ddeall sut gallwn gefnogi merched entrepreneuraidd yng Nghymru yn y ffordd orau, ac i hybu ymhellach y negeseuon cadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael i ferched entrepreneuraidd.

Mae o fantais i'n gwasanaethau cefnogi busnes fabwysiadu dull aml-ddimensiwn o weithredu i gefnogi merched entrepreneuraidd. Gan weithio mewn partneriaeth a defnyddio gwahanol ddulliau, adnoddau ac ymyriadau, gallwn roi hwb i nifer y merched sy'n sefydlu busnes yng Nghymru. Drwy restru cynghorion ymarferol, y gobaith yw bod y canllaw hwn yn annog asiantaethau cefnogi busnesau ledled Cymru i weithio gyda merched sy'n sefydlu, cynnal neu ddatblygu eu busnes. Drwy wneud y newidiadau bach hyn, gall asiantaethau cefnogi busnesau fod yn hyderus eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n addas i bawb yn y cymunedau ledled Cymru.

Dim ond dechrau ar y broses yw hyn a byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am sut gallwn wella arferion ar draws y sector cefnogi busnes.

Mae potensial economaidd merched entrepreneuraidd yn bell-gyrhaeddol. Nid yn unig o ran datblygu potensial economaidd merched fel grŵp, ond hefyd o ran y manteision strategol sydd i'w cael o greu eco-system fwy cytbwys o ran y rhywiau, fel gwell arloesi, cynhyrchiant a gallu cystadleuol. Drwy fabwysiadu'r egwyddorion yn y canllaw hwn, a dilyn rhai o'r cynghorion ymarferol sydd wedi'u rhestru, gall pob un ohonom gyfrannu at wneud Cymru'n lle gwell i ferched mewn busnes.

## Gallwch ddangos eich cefnogaeth trwy ddilyn y camau syml hyn:

- Defnyddio'r 'Canllaw Arfer Da' i edrych ar eich gwasanaethau presennol a mabwysiadu dull o ganolbwyntio ar rywedd.
- Ymunwch a'r sgwrs a dywedwch wrth eraill yr hyn yr ydych yn ei wneud i gefnogi entrepreneuriaid benywaidd ar **#menywodbusnescymru**
- Dangoswch logo Cefnogi Menywod Entrepreneuraidd ar eich gwefan a'ch deunydd hyrwyddo. Mae hwn ar gael oddi wrth Cefnogi. **MerchedEntrepreneuraiddYngNghymru@llyw.cymru**
- Ewch ati i ledaenu'r neges i annog eraill i gymryd rhan.

Yn falch o… CEFNOGI #menywodbusnescymru

Proud to be… SUPPORTING #businesswomenwales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ATODIADAU

## ATODIAD 1:
## EIRFA O DERMAU

**Dulliau ymwybodol o'r rhywiau o ymarfer**
Mae dull ymwybodol o'r rhywiau o ymarfer mewn amgylchedd gwaith, naill ai o ran polisi neu arfer, yn ystyried unrhyw rwystrau sy'n atal cyfranogiad a/neu ddefnydd o wasanaeth penodol gan ferched (neu ddynion) ac mae'n addasu yn unol â hynny er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol. Yn achos darpariaeth cefnogi busnes, mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth a gwybodaeth am faterion allweddol i fusnesau sy'n cael eu harwain gan ferched ac sy'n eiddo i ferched.

**Dall i'r rhywiau**
Nid yw prosiectau, rhaglenni, polisïau nac agweddau dall i'r rhywiau'n ystyried swyddogaethau ac anghenion amrywiol merched a dynion ac maent yn methu cydnabod bod swyddogaethau a chyfrifoldebau merched/genethod a dynion/bechgyn yn cael eu neilltuo iddynt, neu eu gorfodi arnynt, mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol penodol. Felly maent yn cynnal y drefn fel y mae ac ni fyddant yn helpu i drawsnewid strwythur anghyfartal o ran cysylltiadau'r rhywiau.

**http://eige.europa.eu/rdc/thesaurus/terms/1157**

**Niwtral o ran rhyw**
Ystyr y term 'niwtral o ran rhyw' yw rhywbeth heb gysylltiad â naill ai merched na dynion. Gall gyfeirio at agweddau amrywiol ar gysyniadau neu steil iaith. Fodd bynnag, mae'r hyn a welir yn aml fel elfen niwtral o ran rhyw, gan gynnwys meysydd ystadegau neu ddosbarthu data a gasglwyd mewn perthynas â phoblogaeth, yn adlewyrchu dallineb i rywiau ar waith yn aml (methu cydnabod elfennau penodol i'r rhywiau).

**http://eige.europa.eu/rdc/thesaurus/terms/1157**

**Dulliau penodol i ryw o ymarfer**
Mae dull penodol i ryw o ymarfer mewn amgylchedd gwaith, naill ai o ran polisi neu arfer, yn ymyriad wedi'i dargedu sy'n berthnasol i un rhyw (dynion neu ferched). Bydd unrhyw ymyriad o'r fath wedi'i seilio ar wybodaeth mewn data wedi'u gwahanu yn ôl rhyw, ymchwil a/neu wybodaeth a chanlyniadau arfer gorau.

**Cyfalaf cymdeithasol**
Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn diffinio cyfalaf cymdeithasol fel, '…the links, shared values and understandings in society that enable individuals and groups to trust each other and work together'.

**Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar (TEA)**
Dyma gyfradd yr unigolion yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n ymwneud â sefydlu busnesau, naill ai yng ngham dechrau cwmni newydd (entrepreneuriaid cychwynnol), neu yn y cam sy'n rhychwantu 42 mis ar ôl sefydlu'r cwmni (rheolwr-berchennog cwmnïau newydd).

# ATODIADAU

## **ATODIAD 2:**
## FFYNONELLAU CYFEIRIO A DARLLEN


1. Dogfennau Llywodraeth Cymru

   Fframwaith, 'Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru'

   Y Rhaglen Lywodraethu

   'Symud Cymru Ymlaen'

   'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol'

   Datganiad Llesiant 2017

   Hefyd, adroddiad ymchwil diweddar o Gymru?
2. Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM)
3. 'Women Entrepreneurs: Developing collaborative ecosystems for success.' Deloitte (2017)
4. 'Good Practices in Women's Entrepreneurship'. Y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoleb y Rhywiau (2014)
5. 'Women in Enterprise: The Untapped Potential'. Ffederasiwn y Busnesau Bach (2016)
6. 'Women in Enterprise in Scotland'. Women's Enterprise Scotland (2017)
7. 'Women Outperform Men in Seed Crowdfunding', PWC a'r Crowdfunding Centre (2017)
8. 'Untapped Unicorns; scaling up female entrepreneuriaeth' Banc Barclays a'r Female Founders Forum (2017)
9. McGowan, P., Cooper, S., Durkin, M. ac O'Kane, C. (2015), The Influence of Social and Human Capital in Developing Young Women as Entrepreneurial Business Leaders. Journal of Small Busnes Management, 53: 645–661.
10. 'Policy Brief on Expanding Networks for Inclusive Entrepreneurship'. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)/ Yr Undeb Ewropeaidd (2015)
11. 'Women in Enterprise: A Different Perspective'. RBS Group (2013)
12. 'Economic Benefits of Gender Equality' Y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoleb y Rhywiau (2017)


Mynnwch gopi o'r Canllaw Arfer Da ar

**https://businesswales.gov.wales/cy/cefnogi-merched-yng-nghymru**

neu sganiwch y cod hwn

Cynhyrchwyd y Canllaw Arfer Da hwn yn cydweithrediad â Women Enterprise Scotland.



OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38915 ISBN digidol 978-1-83933-488-7 ISBN argraffu 978-1-83933-487-0